# Y TINCER

PRIS 50c

Rhif 317

Mawrth 2009

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# Corlan lawn yn y treialon cŵn defaid dan do



Cyhoeddodd Cymdeithas Cwrshin mewn Cysgod, trefnwyr y treialon cŵn defaid dan do cyntaf ym Mhrydain, a'r cyntaf yn y byd i ddefnyddio 'rheolau De Cymru', a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid ar Chwefror 21 i'r fenter fod yn llwyddiant. .

Roedd y digwyddiad unigryw hwn wedi denu llawer iawn o sylw ymlaen llaw, a chafodd y dyrfa fawr a ddaeth ynghyd i wylio gwledd o adloniant gan y deuddeg cystadleuydd a wahoddwyd i gymryd rhan. Roedd y digwyddiad yn dipyn o sialens wrth i'r bugeiliaid a'r cŵn orfod dygymod ag amgylchiadau tra gwahanol i'r arfer, ac er i rai ei gweld yn anodd, roedd eraill yn ffynnu. Un o'r rhai a lwyddodd oedd y pencampwr yn y pendraw ac enillydd cyntaf erioed ar Fowlen Grisial Berthlwyd, oedd Jeff Evans o Swyddffynnon gyda'i gi Jill gydag arddangosfa wych yn y rownd derfynol a greodd argraff ar Kevin Evans o Libanus.

Roedd y prif drefnydd a'r arbenigwr ar dreialon cŵn defaid, Charles Arch yn falch gyda'r digwyddiad, "mae sefydlu'r gystadleuaeth hon o ddim wedi bod yn llawer o waith caled, ac rydym wedi bod yn falch gyda'r sylw a'r diddordeb y mae'r gystadleuaeth wedi'u creu. Roedd lot o chwilfrydedd ynghylch sut y byddai'r digwyddiad yn gweithio, ac adlewyrchwyd hynny yn y dyrfa ddenwyd, a chredaf y gallwn fod yn falch iawn gyda llwyddiant y gystadleuaeth agoriadol hon. Mae llawer o gostau'n gysylltiedig â chynnal digwyddiad o'r fath a dymunaf fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl noddwyr am eu cefnogaeth."

Mynegodd Mr Arch ddymuniad y trefnwyr i gynnal y digwyddiad yn flynyddol, ac er bod digwyddiadau'r bwrw Sul wedi bod yn llwyddiant mae'n cyfaddef bod lle i wella. "Gydag unrhyw ddigwyddiad newydd fel hyn nid ydych chi byth yn siŵr sut y bydd pethau'n gweithio hyd at y diwrnod ei hun. Rwy'n credu ein bod wedi rhoi ystyriaeth dda i bopeth, ond mae gennym nifer o syniadau a allai wella'r gystadleuaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf."

Gwahoddwyd cystadleuwyr o bob cwr o Gymru, ond efallai ei bod yn addas bod yr enillydd, Jeff Evans, yn hanu o'r ardal leol. Yn wir fe wnaeth Ceredigion ddominyddu'r gweithgareddau, gydag Idris Morgan a'i gi Mirk o Aberystwyth yn dod yn ail, ac I.B. Jones a'i gi Meg o Gapel Bangor yn drydydd. Rhoddwyd a chyflwynwyd y tlws gan Dai ac Olwen Jones, Llanilar.

# Swydd newydd i Eluned

Mae Eluned Lewis wedi cychwyn gweithio gyda chwmni Airtricity fel Swyddog Cyswllt Cymunedol ar gyfer cynllun Fferm Wynt Nant-y-moch. Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Penweddig mae Eluned yn byw yng Nghapel Bangor sydd o fewn cyrraedd hwylus i'r fferm wynt arfaethedig ar diroedd mynyddig o eiddo'r Comisiwn Coedwigaeth a ffermwyr eraill rhwng Tal-y-bont a chronfa ddÐr Nant-y-moch. Mae ganddi brofiad eang o waith cymunedol fel cyn Swyddog Datblygu i Pentir Pumlumon a Menter Aberystwyth. Yn ei swydd newydd Eluned fydd y prif gyswllt rhwng y gymuned a Airtricity, y cwmni sy'n datblygu'r fferm wynt. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda chymunedau ardal Nant-y-moch trwy ddarparu gwybodaeth yn gyson am ddatblygiad y fferm wynt ac yn arbennig yn ystod y cyfnod sy'n arwain at gyflwyno'r cais cynllunio ar ddiwedd 2009. Dywedodd Eluned y bydd fferm wynt Nant-y-moch yn cynnig cyfleoedd newydd iawn i gymunedau gogledd Ceredigion. "Rwyn teimlo'n ecseited iawn am y potensial sydd yma i gymunedau lleol", meddai. "Y camau cyntaf i mi yn y swydd hon yw datblygu syniadau ac argymhellion i ni eu cyflwyno i'r boblogaeth leol o fewn y prif gymunedau, i bartneriaid yn ogystal ac i drwch y boblogaeth.

"Rwyf hefyd yn gyfrifol am sefydlu Grŵp Cyswllt Cymunedol, sy'n gasgliad o bobl leol sy'n gynrychioliadwy o'r cymunedau yn nalgylch Nant-y-moch Bydd aelodau'r grŵp hwn yn cytuno ar Gynllun Cymunedol ac yn monitro sut y byddwn ni yn gweithio gyda'r gymuned leol", meddai. Yn ystod y misoedd nesaf fe fydd hi hefyd yn gweithio ar ddatblygu gwefan arbennig fydd yn cynnwys diweddariad cyson a newyddion am y datblygiad ac hefyd yn gosod y prosiect mewn cyd-destun ehangach. Mae Eluned yn gweithio o swyddfa Airtricity yn Y Plas ym Machynlleth a gellir cysylltu â hi ar 01654 702720 neu drwy e bost eluned.lewis@airtricity.com.



templatelliw.indd 1 17/3/09 09:34:00

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 317 | Mawrth 2009

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan,
Felin Ddewi, 4 Glanceulan, Penrhyn-coch
☎ 820 583 bevan.paul@gmail.com

**CASGLWR HYSBYSEBION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeufforddd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MAWRTH 26 A MAWRTH 27 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI EBRILL 9 SYLWER AR Y DYDDIAD CAU – OHERWYDD Y PASG

**MAWRTH 20** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Uwchradd Aberteifi o 9.30 ymlaen

**MAWRTH 20** Nos Wener Ymweliad â'r 'Drwm' - Hen Ffilmiau Cymreig Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.00

**MAWRTH 21** Bore Sadwrn Bore coffi yn y Garn i dderbyn rhoddion ariannol at Cymorth i Bosnia rhwng 10 a 12

**MAWRTH 21** Bore Sadwrn – Cinio'r Grawys yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre dan nawdd Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn rhwng 12.30-1.30. Elw at Ffagl Gobaith.

**MAWRTH 23** Nos Lun Cyfarfod PACT (Tîm Plismona Bro) yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00 Trefnir gan Heddlu Dyfed-Powys

**MAWRTH 25** Nos Fercher Pwyllgor Cyhoeddus Neuadd Pentref Pen-llwyn Capel Bangor am 7.30

**MAWRTH 28** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**EBRILL 4** Bore Sadwrn Bore coffi yn Neuadd Rhydypennau tuag at elusennau eglwysig a Chymdeithas Ceredigion i'r Deillion.

**EBRILL 5** Nos Sul Rownd derfynol Côr Cymru – Canolfan y Celfyddydau am 7.00

**EBRILL 15** Nos Fercher Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.30 pm Pwyllgor Apêl Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010. Croeso Cynnes i Bawb

**EBRILL 18** Dydd Sadwrn Taith gerdded noddedig – Milltir Sgwâr Ann Griffiths (7 milltir); trefnir gan Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch. Gadael Penrhyn-coch am 9.15 Cysylltwch â Dwynwen Belsey am fwy o fanylion – ffôn 820166

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.
Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.
Deunydd i'w gynnwys
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.
Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr mis Chwefror 2009.

£25 (Rhif 181) Dylan Jenkins, Swyddfa'r Post, Penrhyn-coch.
£15 (Rhif 75) Howell Ebenezer, 19 Bryn Castell, Bow Street.
£10 (Rhif 177) Kathleen Lewis, Llys Alban, Tregerddan, Bow Street.
Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan y golygydd yn dilyn ymarfer Cantre'r Gwaelod nos Sul y 15fed o Chwefror. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion 2009 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeillion_y_tincer_2008.pdf

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

RHAGHYSBYSIAD
Nos Wener Mehefin 19 Ffrindiau Cartref Tregerddan - Barbeciw yn y Cartref am 6.30.

**Galw cyn-chwaraewyr Clwb Cymric, Caerdydd.**

Mae'r Clwb pêl-droed yn dathlu ei ben blwydd yn 40 oed eleni, ac i nodi'r achlysur, cynhelir Parti Pen blwydd enfawr ar nos Sadwrn, 9fed o Fai, 2009 yn Stadiwm SWALEC, Gerddi Soffia, Caerdydd.
Cewch swper blasus, cerddoriaeth swynol a chyfle i hel atgofion yng nghwmni criw dethol o bob rhan o Gymru a thu hwnt.

Tocynnau ar werth am £30 yr un, trwy gysylltu â: Rhys Meilir Davies, Ysgrifennydd y Clwb (e-bost : clwbcymric@hotmail.com neu ffôn : 07775 992673 )

Brysiwch i sicrhau eich lle wrth y bwrdd ac yn chwedloniaeth a llyfrau hanes pêl-droed yng Nghymru !

## Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

**Trefn y Rihyrsals**
7.00 o'r gloch

**Nos Fercher, Mawrth 25**
Seion, Aberystwyth
**Nos Fercher, Ebrill 1af**
Y Garn, Bow Street
**Nos Fercher, Ebrill 8**
Horeb, Penrhyn-coch
**Nos Fercher, Ebrill 22**
Morfa, Aberystwyth
**Nos Fercher, Ebrill 29**
Bethel (A), Tal-y-bont
**Nos Fercher, Mai 6**
Bethel (B), Aberystwyth

Y Gymanfa Ganu, Sul Mai 10fed 2009 ym Methel, Aberystwyth am 10.00 a 5.30
**Arweinydd**: Carol Davies

## TRYSORYDD NEWYDD

Cafwyd trysorydd newydd i'r Tincer! Diolch i Paul Bevan, Felin Ddewi, 4 Glanceulan, Penrhyn-coch (01970 820 583) bevan.paul@gmail.com am gytuno i weithredu fel trysorydd. Dymuniadau gorau iddo ar y gwaith.


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627


## TAITH GERDDED GŴYL CYHOEDDI EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CEREDIGION 2010

Fel yr ydych yn gwybod, mae'n siŵr, mae Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ymweld â Cheredigion yn 2010. Mae tipyn o frwdfrydedd ar draws y sir ac mae'r pwyllgorau testun wedi bod yn brysur yn paratoi yr holl gystadlaethau a'r pwyllgorau apêl hwythau wedi bod yn ddiwyd yn trefnu gweithgareddau a chasglu arian ar gyfer y brifwyl.

Fel sydd yn draddodiadol cynhelir yr Wyl Gyhoeddi ar gyfer yr Eisteddfod flwyddyn ymlaen llaw a'r bwriad eleni yw ei chynnal ddiwedd Ebrill yn ystod yr wythnos Ebrill 20-24. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod ac i hyrwyddo Ceredigion yn gyffredinol caiff taith gerdded ei chynnal o gwmpas y sir fydd yn mynd ar hyd rhai o'r llwybrau penodol sydd wedi eu datblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

Caiff un daith ei threfnu drwy ogledd y sir ac un arall drwy dde'r sir gyda'r nod o'r ddwy yn cwrdd ar ddydd Gwener, 24 Ebrill yng nghanolfan yr Urdd Llangrannog lle cynhelir jambori ar gyfer plant ysgolion cynradd y sir.

Caiff y teithiau dyddiol eu harwain gan gerddwyr profiadol ac mae cyfle i chi ymuno â nhw am ddiwrnod cyfan neu am ran o'r daith.

Os oes diddordeb ac i dderbyn rhagor o fanylion cysylltwch ag un o'r canlynol:


TEITHIAU'R GOGLEDD

| Dydd / dyddiad | TAITH | ARWEINYDD CYSYLLTYDD |
|---|---|---|
| Dydd Mawrth 21 Ebrill | Pontrhydfendigaid - Aberystwyth | Rees Thomas 01970-828772 hreesthomas@yahoo.co.uk |
| Dydd Mercher 22 Ebrill | Ardal Aberystwyth<br>1: Aberystwyth - Ynys-las<br>2: Taliesin, Tal-y-bont, Penrhyn-coch, Rhydypennau | Bethan Hartnup 01970-828533 rhartnup@hotmail.com<br>Rees Thomas 01970-828772 hreesthomas@yahoo.co.uk |
| Dydd Iau 23 Ebrill | Aberystwyth - Aberaeron | Marina James 01545-571045 marinajames7@btinternet.com |
| Dydd Gwener 24 Ebrill | Aberaeron - Llangrannog<br>1: Aberaeron - Cwmtydu<br>2: Cwmtydu - Llangrannog | Mair Rees 01545-580600 Rees.mair@virgin.net<br>Eileen Curry 01559-362253 |

Yn gywir, Deian Creunant Cadeirydd Pwyllgor Gwaith EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CEREDIGION 2010


camau bach
8.00am – 6.00pm Llun-Gwener
Camau Bach yw'r unig feithrinfa ddydd cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth.
Rydym yn cynnig gofal dydd ac addysg o ansawdd i blant o chwe wythnos oed hyd at oed ysgol.
Mae'r clwb cyn ac ar ôl ysgol bywiog a leolir yn y feithrinfa yn cludo'r plant i ac o'r ysgolion lleol yn Aberystwyth. Mae Clwb Gwyliau rhagorol ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol hefyd. Felly, gall Camau Bach gynnig gofal dydd llawn neu ran-amser i holl blant y teulu.
Gallwch fod yn dawel eich meddwl y bydd eich plentyn yn cael y gofal gorau gan y tîm o staff profiadol a chymwys, a hynny mewn awyrgylch deniadol, cyfeillgar a Chymreig.
MUDIAD YSGOLION MEITHRIN
www.mym.co.uk ☎ 01970 639655



GWAITH GARDDIO

Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924



HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720



SWYDDFA'R POST BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN



oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042



Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

# Y BORTH

## Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch

Dr Russell Davies, o Brifysgol Aberystwyth oedd y siaradwr yn y Gymdeithas nos Fercher, 11 Chwefror. Croesawyd ef atom gan Mr Des Hayes. Hanesydd yw Dr Davies ac mae wedi cyhoeddi llyfrau yn ymwneud â'i waith ymchwil i hanes Cymru. Rhyw bum mlynedd yn ôl bu hefyd yn gyfrifol am gyfres o raglenni hanes ar S4C, sef 'Ditectif Hanes'.

Testun ei sgwrs oedd 'Agweddau ar Hanes Cymdeithasol Cymru'. Ei fwriad wrth wneud gwaith ymchwil yw ceisio cael y gwir lun o'r bywyd cymdeithasol Efallai mai delwedd barchus sydd wedi'i chyfleu inni o fywyd cefn gwlad Cymru ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, fel ag a welwn yn llun Curnow Vosper o 'Salem', ond nid dyna oedd y realiti ac wrth wneud ymchwil gellir gweld dimensiwn ehangach. Difyr iawn oedd ei hanesion am yr hen arferion a'r hiwmor oedd yn rhan annatod o fywyd y cyfnod hwnnw. Diolchwyd i Dr Davies ar ein rhan gan John Hefin.

## Marwolaethau

Trist yw gorfod cofnodi marwolaeth dau ŵr bonheddig oedd yn gymdogion o fewn tri thŷ i'w gilydd ar Ffordd y Graig, o fewn wythnos union yn ystod mis Chwefror, sef Mr. Ken Roberts, Sea Thrift, a Mr. Vernon Ball, Cefn Ydfa.

Brodor o ymyl Wrecsam oedd Mr. Roberts yn wreiddiol, ac wedi ymsefydlu yn y Borth gyda'i wraig Alethea, a oedd yn hannu o Aberystwyth, tua deuddeng mlynedd yn ôl. Nid oedd Ken wedi mwynhau iechyd da ers misoedd lawer, a threuliodd gyfnodau yn derbyn triniaeth yn Ysbytai Singleton a Bron-glais. Yno y collodd ei frwydr yn erbyn ei salwch blin ar Chwefror 4ydd.

Bu ei arwyl yn Amlosgfa Aberystwyth ar Chwefror 13eg, pryd y daeth perthnasau a chymdogion ynghyd i ffarwelio â chymeriad addfwyn a bonheddig. Cydymdeimlir yn ddiffuant ag Alethea ei weddw, a'r teulu oll yn eu colled.

## Marwolaeth

**Mr V.E.W.Ball**

Dydd Mercher, 11 Chwefror, y bu Vernon Ball farw'n sydyn ar ôl cystudd hir yr oedd wedi'i wynebu â dewrder mawr. Yr oedd yn 84 oed.

Ganwyd Vernon yn Aberdâr ac addysgwyd yn Ysgol Ramadeg Arberth. Ar ôl ymadael â'r ysgol, fe aeth i weithio i Gwmni Peirianneg, sef Metro-Vic, ym Mhorth Tywyn. Yno, fe gwrddodd â'i wraig, Marjorie John, gynt o Faesteg. Symudodd y ddau i Gaerdydd ac wedyn i Swydd Caint, lle cymerodd Vernon swydd mewn Llywodraeth Leol. Ar ôl ymddeol yn gynnar ym 1984, fe ddaethant i fyw i'r Borth.

Yn drist iawn, bu farw Marjorie yn y flwyddyn ganlynol. O hynny ymlaen, fe ymddiddorodd Vernon mewn cyhoeddi llyfrau gartref ac mewn gwaith gwirfoddol, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, CARIAD, NSPCC a'r RNIB. Efe a ddechreuodd y ffeiriau elusennol yn Neuadd Gymunedol Y Borth, sydd wedi hen ennill eu plwyf yng nghalendr y pentref.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Aberystwyth ddydd Gwener, 20 Chwefror, yng ngofal y Tad Roy Doxsey, Ficer Eglwys Sant German, Caerdydd. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i chwio-rydd-yng-nghyfraith, Mrs Joyce Berryman, Francis Road, a Mrs Elizabeth Evans, Moorlands, ynghyd a Mr Glynne Evans, Moorlands, ei frawd-yng-nghyfraith, a'r teulu yng Nghaerdydd.

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch
## Cinio Gŵyl Ddewi

Nos Wener, 27 Chwefror, cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi'r Gymdeithas Gymraeg yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Y siaradwr gwadd oedd y Prifardd Dic Jones.

Ar drothwy'r achlysur, ac er mawr syfrdandod y gwesteion, fe sylweddolwyd bod rhyw dwpsyn wedi trefnu chwarae Cymru yn erbyn Ffrainc, yng nghystadleuaeth y Chwe Chenedl, ar yr un noson â'r cinio. Achubwyd y dydd drwy garedigrwydd a chydweithrediad y siaradwr gwadd a Mr Vincent Morgan, Llety Parc. Cytunodd y Prifardd i newid y drefn arferol ac i siarad ar ddechrau'r noson, ac fe ddaethpwyd i mewn a theledu mawr er budd y ciniawyr.

Croesawyd pawb, gan gynnwys y Prifardd a Mrs Sian Jones, gan Mr Gwyn Evans, Cadeirydd y Gymdeithas Gymraeg. Fe gyflwynodd Mr Dic Jones fel amaethwr, canwr, Prifardd, enillydd pum Cadair Genedlaethol, a'r Hybarch Archdderwydd. Pleser bob amser yw gwrando ar awdur yn traethu ei waith ei hunan, ac fe gafwyd gan y Prifardd wledd o benillion, englynion a thribanau, naill ai'n llawn sport a hwyl, neu'n ddwys ac yn dangos doethineb syml. Diolchwyd iddo'n gynnes gan Mr Gwyn Evans.

Gofynnwyd bendith gan Y Parchg Wyn Morris cyn i bawb fwynhau pryd o fwyd arbennig o dda, gan edrych ar y gêm ar yr un pryd. A pha ffordd well i ddathlu Gŵyl Ddewi? Trist yw dweud i Gymru golli'r gêm (a'r "Grand Slam"), er gwaethaf cefnogaeth frwd y Gymdeithas. Biti garw nad oedd Tim Hayes yn reffario er mwyn sicrhau chwarae teg i'r Cymry.

Diolchir i Mrs Nansi Hayes, a drefnodd y noson, ac i berchnogion a staff Llety Parc am eu lletygarwch.

Dyna gyfarfod olaf y Gymdeithas am y sesiwn 2008-9. Edrychir ymlaen, sut bynnag, at wibdaith yr haf ym mis Mehefin. Bydd manylion ar gael yn ddiweddarach ymlaen.



Yr Archdderwydd, Dic Jones, y Gŵr Gwadd yng Nghinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Gymraeg y Borth a'r Cylch, gyda Gwynfryn Evans, Cadeirydd, a Nansi Hayes, Ysgrifennydd.

## Eglwys Sant Mathew Datganiad

Llongyfarchiadau i Mr Michael James, Organydd Eglwys Sant Mathew, a wahoddwyd i roi datganiad organ yn Eglwys Gadeiriol Wells, ddydd Llun, 2 Mawrth.

## Ar gau

Bydd Eglwys Sant Mathew ar gau yn ystod mis Mawrth tra bydd contractwyr yn codi mynedfa i'r anabl. Cynhelir y gwasanaethau boreol dydd Sul yn Neuadd Gymunedol y Borth am 11.15 o'r gloch.

## Clwb yr Henoed

Cynhaliwyd Cyfarfod Agored Blynyddol Clwb yr Henoed yn y Neuadd Gymunedol, ddydd Iau, 12 Chwefror. Etholwyd swyddogion ar gyfer 2009-10 fel a ganlyn:
Llywydd: Ann Newby
Cadeirydd: Betty Horton
Is-Gadeirydd: Pamela Gough
Ysgrifenydd: Pat Pearson
Trysorydd: Freda Darby
Gwibdeithiau: Graham Taylor a Joy Cook
Raf flau: Charles Gough a Brian Holland
Aelodau o'r Pwyllgor: Elizabeth Evans, Betty Gregory, Margaret Grifiths, Sylvia Holland, Celia LeGood a Lynn Taylor.

Ddydd Iau, 26 Chwefror, mwynhawyd te-parti Gŵyl Ddewi yn y Neuadd Gymunedol. Diolchir i'r aelodau o'r pwyllgor a ddarparodd y te ac i Betty Horton, Cadeirydd y Clwb, a ddyfeisiodd "Y cwis mawr Cymreig" a achosodd gryn dipyn o grafu pennau a chwerthin.

## Cydymdeimlad

Cydymdeinlwn â Idris Evans a'r teulu, Ger y Don, ar farwolaeth mam Mr Evans - Telidwen Evans o Aberdyfi - yn ddiweddar.

## Sefydliad y Merched

Margaret Hudson oedd y cadeirydd yng nghyfarfod SYM Y Borth yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 4 Chwefror. Mwynhawyd sgwrs â chymorth sleidiau gan Mr T. Glyn Jones ar "Rhamant y Rheilffyrdd". Canolbwyntiodd Mr Jones ar ddatblygiad y rheilffyrdd yng Nghymru, gan gynnwys ager-beiriant pwysig Trevithick ym Merthyr Tudful ym 1804, sefydlu'r lein gyntaf i gludo teithwyr yn Ystumllwynarth [Oystermouth], Abertawe, a dechreuad y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth ym 1867. Diolchwyd iddo gan Ann Newby.

Jo Jones, Llywydd SYM Y Borth, oedd yn y gadair nos Fercher, 18 Chwefror. Y siaradwraig oedd Heather Burstin, un o'r aelodau,

templatelliw.indd 4 17/3/09 09:34:08

sy'n nyrs brofiadol yn ogystal a bod yn masseuse a chymwysterau mewn Aromatherapi. Siaradodd Heather am ddefnydd olewon aromatig iachusol, gan rybuddio eu bod yn gryf iawn a bod rhaid eu defnyddio'n ofalus. Dangosodd Heather ran o'i chrefft gan dylino wyneb Jo Jones. Diolchwyd iddi gan Margaret Hudson.

Noson i'w chofio oedd nos Fercher, 4 Mawrth, pan ymunwyd â SYM Y Borth gan dros gant o aelodau o ganghennau eraill, er mwyn dathlu Gŵyl Ddewi. Difyrrwyd yr ymwelwyr gan Gôr SYM Ceredigion gyda rhaglen o ganeuon a darlleniadau. Croesawyd yr ymwelwyr gan Jo Jones a Margaret Griffiths. Cafwyd gair o groeso a diolch hefyd oddi wrth Dinah Gibbons, Cadeirydd y Sir, a gyflwynodd hithau wobr i SYM Penrhyn-coch, ar ddiwedd y noson, ar ol cystadleuaeth am y gwisgoedd Cymreig gorau. Roedd pwyllgor SYM Y Borth wedi darparu gwledd o gawl, caws, tarten afalau, pice bach a bara brith ar gyfer eu gwesteion. Diolchir iddynt oll ac yn arbennig i Margaret Griffiths, oedd wedi paratoi crochenaid mawr o gawl blasus, a Betty Gregory, a grasodd ddau gant o bice bach.

## Salwch

Treuliodd Mr. Ianto Evans, Glanwern, gyfnod yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar. Da yw deall ei fod wedi gwella a'i fod adref ar yr aelwyd yn Perllan Hen erbyn hyn.

Yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd mae'r Parchedig Ifan Williams, Ton Pentre, Y Stryd Fawr. Gobeithio na fydd yn rhy hir cyn y bydd yntau hefyd yn cael dod adref i'w aelwyd. Cofion cynnes atoch eich dau.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau gwresocaf i Llywela a Peter Bourne, Maramba, Ffordd y Graig, ar ddod yn Fam-gu a Dat-cu. Ganwyd merch fach i'w merch, Katie, a'i gŵr, Stuart Jones, ar Fawrth 1af, a'i henw yw Neve Ella. Mae'r teulu bach yn byw ym Mhenrhyn-coch.

Llongyfarchion hefyd i'r Parchedig Ifan a Mrs. Gwenda Williams, Ton Pentre, y Stryd Fawr, ar enedigaeth eu pumed ŵyr ar yr 8ed o Fawrth. Mae Dafydd Sion yn blentyn cyntaf i'w mab Rhisiart, a Nia, yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Mae'n siŵr bod y newydd yn fodd i lonni calon Ifan ag yntau yn glaf yn yr Ysbyty ar hyn o bryd.

# LLANDRE



Sefydliad y Merched Genau'r-glyn yn dathlu pen blwydd Rhuddem eu mudiad yng Ngwesty'r Bae, Aberystwyth, Mawrth 1989 Llun: Hugh Jones



2009 O'r chwith i'r dde: Mrs Susan Davies (Llywydd), Mrs Dinah Gibbons (Cadeirydd y Sir) a Mrs Margaret Williams

## Sefydliad y Merched Genau'r-glyn

Daeth aelodau a ffrindiau Sefydliad y Merched Genau'r-glyn ynghyd ar nos Fercher 21 Ionawr eleni i ddathlu 60 mlynedd ers ffurfiwyd y gangen. Ymysg y rhai oedd yn bresennol oedd Mrs Margaret Williams, Bryngolau, sydd wedi bod yn aelod ffyddlon ers 1949 pan sefydlwyd y gangen, yn aml yn eistedd ar y pwyllgor. Mae rhai eraill a oedd yn bresennol hefyd wedi bod yn weithgar dros y blynyddoedd i gadw'r gangen yn un llwyddiannus a hapus. Gwraig wadd y noson oedd Mrs Dinah Gibbons, Bwlchllan, Cadeirydd y Sir. Wedi blasu'r gacen ddathlu cafwyd ein diddori gan y grŵp "The Village Idiots" o'r Borth.

Mae'r sefydliad yn cyfarfod ym Methlehem am 7.30 ar nos Fercher cynta'r mis ac estynnwn groeso parod i aelodau newydd.

## Treftadaeth Llandre

Dyma'r rhaglen am 2009
Mawrth 26 - Gerddi Hanesyddol yng Ngheredigion, - Caroline Palmer
Ebrill 30 — Edward Llwyd — Athrylith Glan-ffraid — Colin Thomas
Mai 28 — Taith Gerdded i Wrando ar Gân yr Adar yng Nghoed Llandre — Caroline de Carle
Mehefin - Toriad
Gorffennaf 30 - Ymweliad â Chefn Caer, Tŷ Canoloesol ac Eglwys Pennal. Machynlleth
Awst — Gwyliau
Medi 24 — Cerrig Canoloesol yn Eglwysi a Chapeli Ceredigion — Tim Palmer
Hydref 29 — Operation Julie 1970 — troseddu rhyngwladol yn cyrraedd cefn gwlad Ceredigion — Lyn Ebenezer
Tachwedd 26 — Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Arddangosfa: Hen luniau a chreiriau o Landre
Rhagfyr 10 — Cinio Nadolig

Cynhelir y cyfarfodydd fel arfer yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre nos Iau olaf y mis gan gychwyn am 7.30. Mynediad am ddim i aelodau (ar ôl tal blynyddol o £5). Codir tal o £2 y cyfarfod fel arall. Croeso i bawb.

## Grŵp Crefft Genau'r Glyn

Cynhelir Noson Goffi, Nos Wener, Ebrill 17, 7.00 o'r gloch ym Methlehem. Stondinau: Cynnyrch Cartref, Planhigion a Man Grefftau. Elw at Bethlehem a Henoed Llandre a Bow Street. Mynediad £1.

## Diolch

"Roedd hi'n anodd dweud 'diolch a hwyl fawr' i bobl yr ydym yn nabod yn ardal Llandre. Dy ni wedi mwynhau ein hamser yma. Mae' n lle a phobl da iawn, a byddwn yn cofio pob dydd o'r wyth mlynedd yn Llandre. Hoffem aros ond nawr mae'n rhaid i ni feddwl am ein teulu a symud yn nes iddyn nhw. Diolch yn fawr a hwyl fawr. Helen a John Atkinson"

## Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Mae Eglwys Llandre yn eich gwahodd i ginio'r Garawys, (pastai bugail a dewis llysieuol) ar ddydd Sadwrn 21 Mawrth o 12.30 - 1.30 yn Ysgoldy Bethlehem. Croeso cynnes i bawb. Yr elw at Ffagl Gobaith.

## Symud Tŷ

Dymuniadau gorau i Helen a John Atkinson, Grovely, Clos y Ceiliog, sydd wedi symud i Exeter. Gobeithio byddant yn hapus yn eu cartref newydd.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gladys Jones, Bronberallan ar farwolaeth ei nai yn Llundain

## Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Eirlys Evans, Y Plas, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty.
i Margaret, Maesyrhedydd, Lon Glanfred, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Brong-lais yn ddiweddar.
i Nano Ellis Davies, Dolmeillion, sydd yn Ysbyty Bron-glais ar ôl torri eich choes.

## Croeso

Croeso i Mr a Mrs Hemings, Andrew a John sydd newydd symud i Grovely, Clos y Ceiliog.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

templatelliw.indd 5 17/3/09 09:34:11

# BOW STREET

## Suliau Ebrill

**Capel y Garn**
**http://www.capelygarn.org/**
**10 a 5**
5 J.R. Jenkins W. Raymond Jones
12 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth 10
19 Bugail
26 Terry Edwards

**Noddfa**
5 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymundeb.
12 Oedfaon Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont am 10.00, 2.00 a 5.00. Y Parch. Tom Defis.
19 Oedfa am 5.00. Gweinidog
26 Oedfa am 2.00. Mr Arwyn Pierce

## Diolch

Dymuna`r Parchg Elwyn Pryse ddiolch yn gywir iawn i Mr John Edwards a`i dîm o lawfeddygon yn Ysbyty Bron-glais, ynghyd â`r Nyrsys (angylion heb adenydd) am bob gofal yn ystod dau arhosiad yn Ward Owain Glyndwr yn ddiweddar. Diolch hefyd am y llu o ddymuniadau da a galwadau ffôn gan gyfeillion ac Eglwysi, ynghyd â llu o gymwynasau yn ystod ei anhwylder.

## Rhedeg marathon

Bydd James Thomas, 3 Y Ddôl, yn rhedeg marathon Llundain eleni ar Ebrill 26 gan godi arian i'r elusen 'Asthma Uk': Gellir cyfrannu trwy fynd i http://www.justgiving.com/jamesbutch neu trwy gysylltu â 3 Y Ddol, Bow Street, Ceredigion, SY24 5EP 01970 820726

## Tad-cu eto!

Llongyfarchiadau i Howell Ebenezer, Bryncastell, ar ddod yn dad-cu am y pumed tro! Ar Chwefror 21ain yn Ysbyty Frenhinol Morgannwg ganwyd trydydd mab - Gwion Iwan - i Anwen ac Iwan yng Ngwaelod-y-garth, Caerdydd. Mae ei frodyr mawr Gruffudd a Morgan wrth eu boddau. Mwy o waith eto i gadw dad-cu yn brysur!

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau mawr i Camwy MacDonald, o Nebo ger Llanrhystud a Catrin Tomos, 44 Bryncastell ar eu dyweddiad.

## Cymdeithas Chwiorydd Y Garn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas uchod ar ddydd Mercher, 4 Chwefror, yn festri Capel y Garn. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Shân Hayward a chymerwyd at y defosiwn gan Mrs Vera Lloyd. Dymunwyd adferiad buan i Mrs Nest Davies a Mrs Gwenda Edwards, Cadeirydd y Gymdeithas, y ddwy ohonynt yn yr ysbyty ym Mron-glais.

Y gŵr gwadd oedd yr Athro Gruffydd Aled Williams, cyn Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ac un o aelodau Capel y Garn. Daeth â dau wrthrych a bwrcaswyd ganddo yn ddiweddar i'r cyfarfod, sef llyfr hynafol o gyfnod y Dadeni Dysg a chwpan/mwg Prifysgol Siena yn yr Eidal. Trwy gyfrwng y ddau wrthrych yma, cawsom ein cyflwyno, yn hynod ddiddorol a deheuig, i fywyd a gwaith yr ysgolhaig Siôn Dafydd Rhys (1534-c.1619). Yr oedd Rhys yn frodor o Lanfaethlu ym Môn ac wedi treulio cyfnod fel myfyriwr yn Rhydychen, aeth i'r Eidal gan raddio mewn meddygaeth ym Mhrifysgol Siena. Tra'n byw yn yr Eidal, cyhoeddodd weithiau ar ramadeg yr ieithoedd Groeg a Lladin, yn ogystal â llyfr ar ynganiad yr iaith Eidaleg. Ymhen amser, dychwelodd i Gymru ac yn 1574 fe'i penodwyd yn brifathro Ysgol Friars, Bangor. Wedyn symudodd i fyw i'r de, i ardal Caerdydd, ac yna i Aberhonddu, lle bu'n ymroi i waith meddyg ac i'w ddiddordebau dyneiddiol. Dyma'r adeg y cyhoeddodd Rhys ei glasur ar ramadeg y Gymraeg, *Cambrobrytannicae Cymraecaeve Linguae Institutiones* (1592), llyfr a ysgrifennwyd yn yr iaith Ladin ac a ddaeth i feddiant yr Athro Gruffydd Aled yn ddiweddar. Diddorol oedd clywed y gallasai Rhys, tra'n byw yn Aberhonddu, fod wedi argraffu llyfrau cudd fel rhan o weithgareddau'r Gwrthddiwygiad Protestannaidd yng Nghymru.

Bu'n brynhawn hynod o ddifyr ac addysgiadol a chyflwynwyd diolchiadau'r gynulleidfa niferus i'r Athro Gruffydd Aled, gan Mrs Vera Lloyd. Paratowyd te blasus ar ddiwedd y cyfarfod gan chwiorydd ardal Maesceiro.

Braf iawn oedd cael cyfarfod ar 4 Mawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi. Croesawodd Mrs Shan Hayward ein gŵr gwadd am y prynhawn sef Mr William Griffiths, Comins-coch. Fel y gŵyr pawb mae Mr Griffiths yn amryddawn iawn gyda nifer fawr o ddiddordebau, ac yn eu plith mae'n casglu llestri capeli ac eglwysi. Mae wedi gwneud astudiaeth fanwl o'u hansawdd a'r patrymau sydd arnynt ac mae'n synnu, allan o'r holl gapeli sydd wedi cau, cyn lleied o'u llestri a welir mewn siopau hen bethau, gyda nifer ohonynt, mae'n siwr, yn dyddio'n ôl i gyfnod y diwygiad 1904/05 a chynt. Mwynhawyd paned ar y diwedd yng nghwpannau cyfoes y capel gan edmygu hefyd arddangosfa o hen lestri Capel y Garn o ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Paratowyd y bwyd blasus gan chwiorydd y Lôn Groes a Thregerddan.

*Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd*
*Yng Nghrist y mae aelodau lawer o un corff*

Paratowyd y gwasanaeth eleni gan wragedd Papua Guinea Newydd. Fe gynhaliwyd cyfarfod gweddi chwiorydd y byd eleni yn lleol yng Nghapel Y Noddfa prynhawn Gwener 6 Mawrth. Ymunodd Y Garn, Y Noddfa ac Eglwys Llanfihangel Geneu'r-glyn i gyd-addoli gyda chwiorydd yn rhyngenwadol ar draws y byd. Y rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth oedd Shan Hayward; Ann Jones; Bethan Jones; Kathleen Lewis; Vera Lloyd; Meinir Lowry; Meinir Roberts;



Gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn y Garn



Dewi Sant (Dewi Hughes)


GWESTY Tynycornel HOTEL
Tal-y-llyn. Tywyn. Gwynedd LL36 9AJ
Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.
Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782282

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

a Mary Thomas, Llandre.

### Merched y Wawr

Croesawodd ein Llywydd Lisa Davies ni i gyfarfod mis Chwefror. Dymunwyd gwellhad buan i rai o'r aelodau oedd heb fod yn hwylus yn ddiweddar.

Trafodwyd y busnes oedd wedi dod i law, yna croesawyd ein gŵr gwadd am y noson, Mr Rheinallt Llwyd. Cafwyd hanes bywyd a gwaith Islwyn Ffowc Elis drwy luniau a storïau yn dechrau o Ddyffryn Ceiriog a Wrecsam ag yn igam ogam i lawr i Lanbedr Pont Steffan. Noson ddiddorol iawn. Diolchwyd i Rheinallt ar ran y gangen gan ein Llywydd a gorffennwyd y noson efo'r paned arferol a thynnwyd y raffl.

Aeth tair o'r aelodau ar ran y gangen i Lanbed i chwarae "Dau ddwrn", Ann, Joyce a Brenda, nid oedd llwyddiant y tro yma ond cafwyd noson ddifyr iawn.

Llongyfarchiadau i Lisa Davies ar ddod yn fam-gu unwaith eto, wyres fach, Heti, chwaer fach i Gruff. Edrychwn ymlaen at ein cinio Gŵyl Ddewi ym mis Mawrth.



Llongyfarchiadau i'r grŵp o ferched o Ysgol Rhydypennau a enillodd y gystadleuaeth Dawsnio Disgo yn Eisteddfod yr Urdd cylch Aberystwyth dydd Mawrth y 3ydd o Fawrth. Gwelir yn y rhes gefn: Tara Harwood, Lucy Evans, Ffion Roberts, Lucy Ankin, Hannah Bowen; rhes flaen: Misha Harwood, Cara Lucas, Kelly Harper (yn dal y dystysgrif), Lorna Harper a Rachel Howard. Pob hwyl iddynt yn Eisteddfod Ranbarthol Ceredigion ym Mhontrhydfendigaid. Mari Wyn Lewis a Bethan Jenkins oedd wedi hyfforddi y marched

### Gwellhad buan

Gwellhad buan i John Davies, 4 Cae'r Felin ar ôl treulio rhai dyddiau yn Ysbyty Llanelli. A'r un yw'r dymuniad i Mr Dewi Bowen, 14 Maesafallen ar ôl bod yn Ysbyty Treforus.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Jayne a Paul, Abermagwr, ar enedigaeth mab - Tomos - ar Fawrth 7fed; brawd i Sion; ŵyr arall i Ron a Mair Davies, Irlwyn, y Lôn Groes.

# MADOG

### Suliau Ebrill Madog

2.00
5 J.R. Jenkins
12 Sul y Pasg Oedfa'r ofalaeth — yn y Garn 10
19 Bugail
26 Terry Edwards

### Llongyfarchiadau dwbl

Llongyfarchiadau i Gwen Sims-Williams ar ennill coron Eisteddfod Ysgol Penweddig yn ddiweddar. Hefyd ar ennill lle i astudio Ieithoedd Modern yng Ngholeg Trinity Hall, Caergrawnt.

Yn y llun gwelir Gwen gydag enillydd y gadair ym Mhenweddig, Sioned Thomas.



### Llwyddiannau

Llongyfarchiadau i Rhys Evans, Fronfraith, ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar, ac hefyd i'w chwaer Lisa am basio arholiad piano Gradd 2

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Hugh Jenkins, Fferm y Darren, ar ôl triniaeth ym Mron-glais .

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Gwellhad

Treuliodd Idwal Williams, Ivy Cottage, rai dyddiau yn yr Ysbyty yn ddiweddar ond mae yn teimlo dipyn yn well erbyn hyn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag ef ac Anwen a'r teulu ar farwolaeth brawd yng nghyfraith ac ewythr yn ddiweddar.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Meriel Morgan, Is y Coed, ar ôl iddi dorri ei braich adref yn ddiweddar.

### Llongyfarchiadau

Braf yw cael llongyfarch Meirian Morgan, wyres Eirlys Davies, Caehaidd, ar ennill y wobr am yr actores orau o dan 16 oed yng Nghystadleuaeth Actio Ffermwyr Ifanc Ceredigion. Mae Meirian yn aelod o CFFI Llangeitho.

### Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Noragh Jones, Troedrhiwsebon, ar farwolaeth nai iddi yn ifanc iawn yn Iwerddon.

### Urdd y Benywod

Ni fu yn bosib i gynnal ein cawl blynyddol eleni oherwydd bod yr Orsaf Bwer yn ail adeiladu y Ganolfan Groeso. Edrychwn ymlaen i weld y lle yn agor ar ei newydd wedd yn y dyfodol agos.

### Apêl Melindwr i Eisteddfod yr Urdd 2010

Cynhelir "Ras Hwyl" ar gefn ceffyl ar ddydd Llun Gŵyl Fai (Mai 4ydd) yn dechrau o Gwmrheidol. Am fwy o fanylion cysylltwch â Nerys Daniel 01970 880691.

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
• Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Llongyfarchiadau

Croeso a dymuniadau gorau i Tomos Gruffydd Iwan, baban bach newydd Iwan a Lowri Jones Tangeulan, a gafodd ei eni ar 25ain o Chwefror. Mae Mr a Mrs Elwyn Jones, sef mam-gu a tad-cu yn falch mae'n siwr i gael ffermwr bach arall i Abercwmdolau. Mae Nannon a Luned, chwiorydd Tomos, yn hapus iawn o'u brawd bach. Dymuniadau gorau i chi i gyd fel teulu.

Cyfarchion pen blwydd hwyr i Mrs Marie Howells, Pencoed, a ddathlodd ben blwydd arbennig ar yr 8fed o Fawrth yn 70. Pob dymuniad da iddi hithau yn ogystal.

### Neuadd y Pentref

Mae angen gwirfoddolwyr i helpu i drefnu noswaith o adloniant yn Neuadd y Pentref ar Wyl Calan Gaeaf 2009. Os oes diddordeb gennych, dewch - os gwelwch yn dda - i'r neuadd Nos Fercher 25ain o Fawrth erbyn 7.30. yr hwyr. Dewch yn llu, mae eich angen!

### Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Methwyd â chynnal ein cyfarfodydd yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror oherwydd tywydd anffafriol. O ganlyniad roedd ein cyfarfod ym mis Mawrth yn gyfle i'r aelodau ddod at ei gilydd am y tro cyntaf eleni.

Y clwb golff yng Nghapel Bangor oedd ein man cyfarfod ar nos Fawrth, Mawrth 3ydd. Oherwydd salwch nid oedd ein llywydd yn bresennol. Croesawyd pawb yn gynnes gan Beti Daniel, yr is-lywydd a thrafodwyd rhai materion.

Hon oedd ein noson i ddathlu Gŵyl Ddewi. Gofynnwyd bendith ar y bwyd gan Heulwen Lewis. Mwynhawyd y cawl, y darten afalau a'r bara brith yng nghwmni ein gilydd cyn i'r is-lywydd groesawu ein gwraig wadd am y noson, sef Linda Griffiths. Roedd Linda yn wyneb ac yn llais cyfarwydd i bawb gan iddi fod yn aelod o'r grŵp Plethyn. Trwy gyfrwng sgwrs a chân cawsom ganddi gipolwg ar ei bywyd o'i dyddiau cynnar hyd heddiw. Mwynhawyd yr orig yn ei chwmni. Diolchodd Beti Daniel iddi am ein diddori a'n diddanu. Mary Jones, ein llywydd roddodd y gwobrau raffl ac fe'u henillwyd gan Margaret Stephens ac Anne Louise Davies.

### Cwrdd Gweddi Chwiorydd y Byd

Cynhaliwyd y gwasanaeth rhyngenwadol hwn Nos Wener 6ed o Fawrth, yn Eglwys Dewi Sant Capel Bangor, pan gymerwyd rhan gan aelodau o'r eglwys, a chapeli Pen-llwyn, Y Dyffryn a Llwyn-y-groes. Paratowyd y rhaglen eleni gan Chwiorydd Papua Guinea Newydd, ar y thema "Yng Nghrist y mae aelodau lawer ond un corff" Mrs Anne Mason Davies a roddodd anerchiad diddorol a bendithiol ar y thema. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Mrs Katherine Livingstone, a Mrs Jean Cock oedd yr organyddes.



### Sefydliad Y Merched - Cangen Pen-llwyn Dathlu'r 90

Coeliwch neu pheidio, mae Sefydliad y Merched Cangen Pen-llwyn yn naw deg oed. Chwedl sawl un yn y gymuned, nid oes yr un ohonom fel aelodau yn edrych ddiwrnod dros ein chwe deg!

Sefydlwyd y gangen ym Mhen-llwyn ym mis Chwefror, 1919, ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Does gennym fawr o wybodaeth am y dyddiau cynnar ond yr ydym yn ymfalchio ein bod, yn ôl geiriau Dafydd Iwan "yma o hyd"! Cafwyd swper i ddathlu'r achlysur arbennig yng Nghlwb Golff y Borth ac Ynys-las, un o'r mannau yr ydym yn ei ffafrio am bryd allan. Fe'n croesawyd yno gan ein Llywydd, Barbara Hogger, a chyflwynodd hi yn ei thro ein gwestai am y noson, Jo Davies, Waunfawr, un o ymgynghorwyr y mudiad. Cafwyd noson i'r brenin, gyda'r awyrgylch a'r bwyd yn werth chweil.

Bu cryn dipyn o drafod ynglŷn â'n haelod hiraf (nid yn angenrheidiol yr hynnaf ohonom). Mae'n debyg mai Enid Vaughan yw hon, a'r trueni oedd na allai hi fod yn bresennol, a hithau wedi mynychu y mwyafrif o'r nosweithiau dathlu degawd yn y gorffennol. Mae Margaretta Jones ac Anne Martin Davies wedi bod yn aelodau ers blynyddoedd lawer hefyd.

Roedd Eirlys Davies wedi coginio ac addurno cacen mewn siap 90 i ni ac yn y llun gwelir aelodau'r gangen yn paratoi i dorri a mwynhau'r deisen.

Fel rhan o'n dathliadau mae gennym nod i greu ffilm o'r pentref fel y mae yn awr, i'w basio ymlaen i'r rhai a ddaw ar ein hôl. Efallai y byddwn ar eich ôl chi am gyfraniad! Tan hynny, edrychwn ymlaen at fynd o nerth i nerth, i gyrraedd y canfed yn y flwyddyn 2019!

Mwynhawyd paned a lluniaeth wedi ei baratoi gan chwiorydd yr eglwys, ar ôl y gwasanaeth. Gwnaethpwyd 57 o bunnoedd o'r casgliad yn ystod y gwasanaeth

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn y mis hwn â Mrs Iona Evans a'r teulu, Bynglo Exchange, sydd wedi colli ewythr yn ddiweddar, Mr Hughie Hughes Llandre.

Hefyd estynnwn ein cydymdeimlad â theulu Cyncoed, wedi colli mam-gu a hen fam-gu. Mae Eleri yn ogystal wedi colli brawd yng nghyfraith, sef Mr Glyn Hopkins o ardal Llanddewibrefi. Cofiwn amdanoch i gyd yn eich profedigaeth.

### Enillwyr clwb 100 mis Ionawr

1af Wynne Jones
2ail Ann Vaughan
3ydd Irfon Meredith
4ydd Mair Jenkins

# DOLAU

### Ymddeoliad

Ymddeoliad hapus i Iwan M. Jones, Dolau Gwyn, a ymddeolodd o'i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol ddiwedd Chwefror.

### O'r Ysbyty

Rydym yn falch o weld Mrs Nest Davies, Nantgwyn, nôl adre a hefyd Mrs Ida Cordery, Rhoshengaer ar ôl cwymp yn ei chartref - y ddwy wedi cael triniaeth yn ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

**Gwasanaeth Cynnal M.H.**

Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ

Disgownt i bensiynwyr

Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

# GOGINAN

### Swydd Newydd

Pob lwc i Catrin Davies, Glwysle ar ei swydd newydd yn Ysgol Feithrin Pen-llwyn. Mi fydd Catrin yn astudio am ei C.G.C. wrth gwneud ei gwaith yn yr ysgol.

# DÔL-Y-BONT

### Adferiad buan

Bu Oliver Patrick, Felin Fawr, yn Ysbyty Treforus yn derbyn llawdriniaeth yn ystod mis Chwefror. Dymuniadau gorau iddo am adferiad llwyr a buan

# PENRHYN-COCH

### Suliau Ebrill Horeb

http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php
5 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
12 10.30 Oedfa deuluol Sul y Pasg Gweinidog
19 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
26 10.30 Clwb Sul a Clwb Sul Bach ac Oedfa bregethu Gweinidog

### Clwb Cinio Cymunedol

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 25 Mawrth, 8 a 22 Ebrill. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Dal i redeg

Pob dymuniad da i Elinor Thorogood, Glan Ceulan, fydd, fel canlyniad i ddod yn 7fed ym mhencampwriaethau traws gwlad ysgolion Cymru yn rhedeg dros Gymru ym Mangor yng nghystadleuaeth ysgolion Celtaidd ddiwedd Mawrth.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Barchg K.C. Herbert, gynt o 68 Ger-y-llan, a fu farw yng Nghartref Plas Cwmcynfelyn ar Chwefror 15fed. Roedd y Parchg Herbert yn gyn ficer Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen.

### Cyfarfod PACT

Cynhelir cyfarfod PACT (Partneriaid a Chymunedau yn cydweithio) nos Lun Mawrth 23 yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00 Cyfarfod cyhoeddus fydd hwn a drefnir gan Dîm Plismona Bro Heddlu Dyfed-Powys sy'n edrych ymlaen i weld a chlywed sylwadau am eu cymuned gan y cyhoedd.

### Urdd Gwragedd Sant Ioan Penrhyn-coch

Nos Lun yr ail o Fawrth dathlwyd Gŵyl Ddewi yng nghwmni Michael Freeman, sef curadur yr amgueddfa yn Aberystwyth. Fe siaradodd a dangosodd sioe sleidiau am y wisg draddodiadol Gymreig. 'Roedd yn ddiddorol i weld y gwahaniaeth yn y wisg o un ardal i'r llall, ag o'r de i'r gogledd. 'Roedd tipyn o drafod a diddordeb yn y dillad a arferai gael eu gwisgo yng Ngheredigion. Braf oedd cael gweld a theimlo betgwn ac astudio gwaith medrus y teiliwr yn agos. Cafwyd cwpanaid o de gyda bara brith a phice bach i ddiweddu'r noson.



### Genedigaeth

Llongyfarchiadau gwresocaf i Katie a Stuart Jones, Delfryn, Garth, ar enedigaeth merch fach — Neve Ella — ar Fawrth 1af.

### Sefydliad y Merched Penrhyn-coch

Cynhaliwyd ein cyfarfod ar Chwefror 18fed diolch unwaith eto i garedigrwydd y Clwb Pêl-droed. Croesawon ni aelod newydd atom, sef Mrs Ivene Taylor, a ddechreuodd ei haelodaeth drwy ennill y raffl! Sefydlwyd rhaglen pob bythefnos tan yr haf. Bu cyfarfod Mawrth 4ydd lle roeddym gydag aelodau grwpiau eraill yn westeion aelodau Sefydliad Y Borth am noson o Gawl a Chân yng nghwmni Côr y Ffederasiwn lle y buom yn ddigon ffodus i ennill gwobr am grŵp o ferched mewn gwisg draddodiadol.

### Cymdeithas Ymddeolwyr Penrhyn-coch

Dydd Mercher, Mawrth 3ydd, fe aethom allan i gael te Cymreig, yn ôl yr arfer i ddathlu Gŵyl Ddewi. A'r tywydd yn braf, cawsom fwyd blasus iawn yng nghwmni ffrindiau yn Llety Parc. Yn anffodus yr oedd rhai o'r aelodau yn dal yn anhwylus ar ôl y gaeaf ond gobeithiwn yn fawr y byddant wedi gwella erbyn ein cyfarfod nesaf am 2.30yp yn Neuadd yr Eglwys ar Ebrill 1af pryd y bydd croeso i ymddeolwyr y plwyf i ymuno gyda ni.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, Chwefror 12 fel arfer croesawodd ein Llywydd bawb i'r cyfarfod a chydymdeimlwyd â rhai o'r aelodau oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar a dymunwyd gwellhad i'r rhai a fu yn sâl ac wedi bod yn cael triniaeth. Dymunwyd pen blwydd hapus i Joan a ddathlodd pen blwydd arbennig yn ddiweddar. Aed ymlaen i wneud y busnes arferol i fynd dros yr ohebiaeth a ddaeth i law yn ystod y mis.



Ar ôl hyn, wrth gwrs, roedd rhaid croesawu mewn gwirionedd ein gŵr gwadd, sef Arwel Rocet Jones. Mewn gwirionedd mae'n adnabyddus ledled Cymru, ond i ni yn y Penrhyn roedd yn anrhydedd ei groesawu ymhellach am mai fe a enillodd Gadair ein heisteddfod y llynedd. Cafwyd noson ddifyr a hwylus dros ben wrth iddo adrodd hanes ei deithiau i Kenya ac Africa allan o'i lyfrau Jambo Caribw a Taith i Borth Uffern. Mae yn draddodwr mor arbennig. Diolchwyd iddo yn swyddogol gan Eirwen Hughes ac yna diweddwyd y noson gyda sgwrs dros gwpanaid a thynnwyd y raffl fisol.

Nos Fawrth 3ydd o Fawrth aeth criw ohonom at gangen Ffair Rhos i'r Bont trwy wahoddiad i ddathlu Gŵyl Ddewi. Fel arfer cafwyd croeso arbennig iawn a noson wych yn eu cwmni. Ar ôl swper da o gawl a phwdin blasus wedi ei baratoi gan y merched fe aeth y noson ymlaen gyda Bois y Bont yn ein diddori gyda'u cyfeilydd yn canu hen ganeuon traddodiadol a ddaeth ac atgofion melys yn ôl i ran fwyaf ohonom a hefyd cafwyd darlleniad a llefaru gan rhai ohonynt. Noson wir Gymreig a phawb wedi mwynhau. Diolchwyd ar ran cangen Penrhyn-coch gan ein Llywydd, Mairwen.

### Cymdeithas y Penrhyn

"Popeth yn Gymraeg" oedd testun sgwrs Ifor ap Glyn, ein gŵr gwadd fis Chwefror. Rhaglen deledu yw'r uchod a ddarlledwyd ar S4C yn ddiweddar. Arbrawf ydoedd i ddarganfod faint o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg. Dilynwyd ef o dref i dref gyda'i gamera yn cyfweld croesdoriad o bobl ar y stryd — a mynnu sgwrsio yn Gymraeg â nhw! Dywedodd y teimlai fel twrist yn ei wlad ei hun a bod ymateb y cyhoedd yn bositif. Cawsom enghreifftiau o sefyllfaoedd doniol a throeon trwstan.

Erbyn gorffen ffilmio'r rhaglen, daethpwyd i'r casgliad fod neb — mewn gwirionedd — yn y Gymru sydd ohoni yn ddi-Gymraeg ac mai ymgais i normaleiddio'r iaith yw'r sialens fawr. Pob lwc iddo ac i bawb sy'n hybu'r ddelfryd o 'bopeth yn Gymraeg' yn y Gymru gyfoes!

### Cylch Meithrin Trefeurig

Yr ydym yn dal i fwynhau yma yn yr ysgol ym Mhenrhyn-coch. Dydd Gŵyl Ddewi yr oeddem i gyd wedi gwisgo yn smart. Dydd Iau 5ed o Fawrth, sef diwrnod y llyfr, daeth pob plentyn a'i hoff lyfr i'r cylch.

Mae amser Eisteddfod unwaith eto ac rydym yn brysur yn ymarfer canu a llefaru ac fe fyddwn yn ymuno â'r ysgol i ddathlu "Diwrnod Trwyn Coch" a chymryd rhan yn yr Eisteddfod.

Sylwer fod un camgymeriad yn Rhestr testunau Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch - yng nghystadleuaeth rhif 5 ar y dydd Sadwrn dylai yr oed ddarllen 12-16 yn lle 12-14. Mae'r copi sydd ar wefan Trefeurig yn gywir - http://www.trefeurig.org/uploads/steddfod2009a.pdf

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 26 o Chwefror o dan lywyddiaeth y Cyng John Evans. Nid oedd dim i'w adrodd ymhellach am fabwysiadu Ystad Maesafallen, dim ond dweud fod y trefniadau arferol yn symud ymlaen rhwng perchnogion y tai a swyddogion Cyngor Ceredigion.

Penderfynwyd peidio â thalu at gost cynnal golau ar rai o lampau'r ystadau rhwng hanner nos a phump y bore o Ebrill y cyntaf ymlaen. Felly bydd nifer o'r goleuadau yn diffodd. Ond os bydd arwyddion o fandaliaeth neu ddwyn mewn unrhyw un o'r ardaloedd hyn bydd hawl gan yr heddlu ofyn i'r Cyngor Sir dalu am ail gynnal y goleuadau.

Mae baw cŵn yn dal i fod yn broblem yn y gymuned. A hyn ar waetha'r ffaith fod un perchennog wedi ei dirwyo £75. Gobeithio y bydd hyn yn rhybudd i bob perchennog ci bellach. Penderfynwyd dosbarthu taflen gwybodaeth ar y mater hwn i bob tŷ yn yr ardal. Cyhoeddir y daflen hon gan Gyngor Sir Ceredigion.

Cynllunio. Adroddwyd bod cais am newidiadau ac estyniad i Dedwyddfa, Penrhiw wedi ei ganiatáu. Cais newydd - Newidiadau ac estyniad i adeilad amaethyddol yn Bryngwyn Isaf, Dolau - dim gwrthwynebiad, ond deallwyd ei fod eisoes wedi ei ganiatáu gan yr adran gynllunio.

Derbyniwyd adroddiad misol gan y Cynghorydd Sir, Cyng Paul Hinge. Dywedodd y bydd adroddiad yn ymddangos ar 31 Mawrth gan yr adran ffyrdd ar yr hyn y bwriedir ei argymell i'w wneud ar y darn ffordd rhwng Rhydypennau a Maesnewydd. Bydd posibilrwydd mynd i'r Cynulliad am arian i ddatblygu'r rhan yma o'r briffordd fel y bydd yn llai peryglus.

Dywedodd y Cyng Hinge y bydd yn trefnu cyfarfod yn fuan er mwyn gwneud rhannau o ffordd Bow Street i Glarach yn ddiogelach i gerddwyr, yn arbennig pont y rheilffordd. Y gobaith fydd cael pont llwybr troed dros y rheilffordd. Hyn yn dod o dan Cynllun Ffyrdd Diogel/ Safer Routes.

Mater arall a godwyd yw pa lwybr y mae'r bibell garthffosiaeth o'r tai newydd wrth Cae Rodyn yn cymryd. Bydd gwrthwynebiad chwyrn iddi groesi'r Cae Pêl-droed, ond disgwylir cael cyfarfod safle gyda'r swyddogion priodol.

Y cyfarfod nesaf ar 26 Mawrth.

## Y Llyfrgell Genedlaethol ac Aastra'n lansio system ffôn Gymraeg

Pan sylwodd dau o aelodau staff y Llyfrgell Genedlaethol nad oedd y Gymraeg ymysg yr ugain iaith Ewropeaidd arall ar y system ffôn newydd, penderfynwyd gwneud rhywbeth positif yn ei gylch.

Cydweithiodd Iona Bailey, Swyddog Telathrebu'r Llyfrgell (a theipydd *y Tincer*) ac Ian Allen, Swyddog Cynnal Rhwydwaith y Llyfrgell, (sy'n byw ym Mhenrhyn-coch) gyda'r cwmni ffonau, Aastra, i sicrhau mai'r Gymraeg fyddai unfed iaith ar hugain eu system ffôn newydd, IntelliGate 7.7.

Cymerodd y Llyfrgell Genedlaethol y cyfrifoldeb dros gyfieithu 250 o eiriau ar gyfer y system tra sicrhaodd Aastra fod y rhain yn plethu gyda'r 2,000 a rhagor o linynnau sy'n sicrhau amrywiaeth dewis i ddefnyddiwr y ffôn.

Cychwynnwyd ar y gwaith ym mis Ebrill 2008 gan ei gwblhau mewn pryd ar gyfer diwrnod gwaith cyntaf y Flwyddyn Newydd. Mae'r Gymraeg bellach wedi ei ymgorffori i holl system IntelliGate 7.7 ac ar gael i bob cwmni neu sefydliad sy'n defnyddio'r system.





C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.
www.yfc-ceredigion.org.uk



**Pencampwyr y Pantomeim**

Bu Theatr Felin-fach dan ei sang am dros wythnos wrth i'r mudiad gynnal cystadleuaeth pantomeim y sir ganol Chwefror. Gwelwyd 14 panto ar y llwfan gan glybiau'r sir a diolchir i'r holl aelodau (dros 400 i gyd) am sicrhau oriau o adloniant i'r gynulleidfa. Mae'r diolch hefyd yn ddidwyll i bawb a fu wrthi yn hyfforddi a helpu'r clybiau mewn unrhyw fodd ac i staff y theatr am eu parodrwydd i gynorthwyo'r clybiau a sicrhau eu bod yn cael y profiad unigryw o berfformio mewn theatr. Plesiwyd y beirniad, sef Meilyr Sion, yn fawr. Dyma'r canlyniadau:-

Actor Gorau 16 neu iau: Rhodri Morris, C.Ff.I. Pont-siân
Actores Orau 16 neu iau: Meleri Morgan, C.Ff.I. Llangeitho
Actor Gorau: Rhys Griffiths, C.Ff.I. Penparc
Actores Orau: Sara Downes, C.Ff.I. Llangeitho
Set Orau: C.Ff.I. Trisant
Cynhyrchydd Gorau: Criw C.Ff.I. Pont-siân sef Dylan Iorwerth, Heledd Gwyndaf, Gwyneth Ayres, Sally Davies a Nanna Ryder.
Sgript Orau: Elen Pencwm, C.Ff.I. Tal-y-bont
Perfformiad Technegol Gorau: C.Ff.I. Llanddeiniol
Clwb Buddugol: C.Ff.I. Pont-siân gyda'r panto 'Go, Go, Go'; 2il: C.Ff.I. Tal-y-bont; 3ydd: C.Ff.I. Llangeitho; 4ydd: C.Ff.I. Penparc; 5ed: C.Ff.I. Llanddewibrefi; 6ed: C.Ff.I. Tregaron.

Llongyfarchiadau mawr i'r uchod a dymuniadau gorau i 'Go Go Go' a chlwb Pont-siân yn Rhuthun ar yr 28ain o Fawrth yng nghystadleuaeth adloniant Cymraeg C.Ff.I. Cymru. Dymuniadau gorau hefyd i'r aelodau a fydd yn cystadlu yn y cystadlaethau siarad cyhoeddus Cymraeg ar yr un penwythnos.

**Digwyddiadau**

**Mawrth 13** Rhowch gynnig arni — noson arbennig i gyn-aelodau'r mudiad yng Ngwesty Llanina, Llanarth. Croeso cynnes i bawb — noson gymdeithasol yng nghwmni hen ffrindiau! Cysylltwch â'r swyddfa am fwy o fanylion (01545) 571 333.
**Mawrth 29** Cystadleuaeth Effeithlonrwydd a Diogelwch Fferm
**Ebrill 4** Diwrnod Maes y Sir yn Nhregaron

# COLOFNYDD Y MIS



**Cyfres lle bydd rhai a fagwyd yn ardal y Tincer sydd ar wasgar yn cyfrannu colofn.**

## Garmon Ceiro

Kenavo! Dyna chi un o'r pump gair Llydaweg dwi 'di'u dysgu ar ôl bron i chwe mis o fyw yn Roazhon (Rennes i'r Ffrancwyr) yn Llydaw. Tipyn o warth i Gymro Cymraeg, mae'n siwr, ond ar hyn o bryd dwi'n dal i ga'l digon o drwbwl yn meistroli'r Ffrangeg i fod yn hollol onest!

Nid yr ieithoedd (ma 'na drydedd yng nghyffiniau Roazhon hefyd: Gallo, ond p'idwch â gofyn am honno!) yw'r unig beth sy'n peri penbleth chwaith! Mae 'na arferion beunyddiol di-rif y mae'n rhaid eu cofio rhag i chi gael eich ystyried yn wehil cymdeithasol. Mae mynd i'r dafarn wedi troi'n her gusanol ddifrifol gyda rhesi o fochau i'w cusanu cyn cyrraedd y bar. A glywaf rai o ddynion ardal y Tincer yn grwgnach yn genfigennus? Peidied. Am bob boch fenywaidd bert mae dwy foch ddynol farfog! Dyna chi beth arall - mae 'na farfau a mwstashys ym mhobman! Mae fel cerdded i mewn i lyfr Asterix. Nid Gavin Henson fyddai'r Cymro mwyaf rhywiol i'r Llydawyr, ond Rowan Williams.

Hefyd, mae'r Llydawyr annwyl yn gwgu arna i'n grac i gyd gan 'mod i'n dueddol o lymeitio peint cynta'r noson heb ddweud "Yaec'h Mad!" (Iechyd Da!) a thinclan fy ngwydr â'm cyfeillion. Yn wir, hyd yn oed os cofia i ddweud y geiriau hollbwysig a thinclan fy ngwydr, pur anaml dwi'n llwyddo i wneud hynny yn y ffordd briodol: mae'n rhaid tinclan pob gwydr o fewn golwg (gall hyn olygu taith gusanog arall i ochr bellaf y bar i dinclan gwydr hen foi sydd ar fin cwmpo i gysgu rhag ofn iddo deimlo ei fod yn cael ei hepgor) a thra byddwch yn dymuno iechyd da, mae'n rhaid syllu'n ddwys i lygaid eich cyd-dinclwr nes bod eich llygaid yn pefrio. Canlyniad hyn yw llond tafarn o bobl a'u llygaid fel soseri, fel pe bai'r cyntaf i flincio'n gorfod prynu rownd i'r dafarn gyfan.

Ond dyna ddigon o gwyno! Dwi'n dechre swnio fel fersiwn Ceredigion o Jeremy Clarkson. Mae'n rhaid dweud, er nad yw'r Llydaweg mor amlwg yma â'r Gymraeg yng Nghymru, mae eu diwylliant cerddorol yn fywiocach o gryn dipyn. Dwi 'di clywed yn ddiweddar na fydd 'na Sesiwn Fawr yn Nolgellau eleni oherwydd blwyddyn aflwyddiannus y llynedd: dim problemau o'r fath yma! Dwi 'di bod i amryw Festoù Noz (cyngherddau i chi a fi) mawreddog lle mae miloedd o Lydawyr chwil-hapus yn dawnsio'n ddi-stop am oriau. Dries i ymuno â nhw ond, diawl, ma'n waith caled! Mae'r coesau'n symud ffwl pelt a does dim gobaith am seibiant a chithau'n sownd rhwng dau Lydawr chwyslyd sy'n dawsio fel pe bai'r byd ar fin dod i ben! Rhoies i'r ffidil yn y to pan bwyntiodd merch fach ata i a dweud wrth ei thad: "Edrycha ar hwnna, 'sdim siâp arno fe, le pauvre."

Efallai nad yw'r bobl leol yn gwerthfawrogi fy sgiliau dawnsio ond, er gwaetha fy nhrafferthion, ma'n rhaid gweud mai dim ond ffŵl fyddai'n methu â mwynhau byw yng nghwmni'r Llydawyr mewn tref cyn brydferthed â Roazhon... nawr ma' angen i fi ddysgu gweud hynny yn y Llydaweg!

Kenavo!

**Ar ôl graddio mewn Cymraeg a Ffrangeg ym Mhrifysgol Caerdydd bu Garmon Ceiro yn gweithio fel cyfieithydd gyda Chwmni Prysg yng Nghaerdydd, ac yn Ymchwilydd i'r Aelod Cynulliad Owen John Thomas, cyn symud i Lydaw lle mae'n dysgu Cymraeg ym Mhrifysgol Rennes. Bu ganddo golofn bythefnosol yn *Big Issue Cymru* am gyfnod.**

# O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Ar ddechrau mis Chwefror, daeth y newyddion da bod £387,000 wedi cael ei neilltuo gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Ngheredigion. O dan y cynllun — a gyhoeddwyd gan Weinidog Tai Plaid Cymru, Jocelyn Davies AC — fe all cymdeithasau tai lleol ddefnyddio'r arian i brynu tai gwag sydd ar werth cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Dyma'r rhan gyntaf o fuddsoddiad gwerth £42m mewn tai fforddiadwy ar draws Cymru yn ystod y tair blynedd nesaf, ac rwy'n gobeithio y cawn mwy o wybodaeth ar siâr Ceredigion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn y dyfodol agos.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog Treftadaeth, Alun Ffred Jones AC, fanylion am gais Llywodraeth y Cynulliad am yr hawl i ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Tra mai dim ond cam cyntaf y broses yw hwn, mae'n sicr yn synhwyrol i ddatganoli cyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg i'r i'r Cynulliad yn hytrach na chael ei gadw yn San Steffan. Yn benodol, mae'r cais yn gofyn am y gallu i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gynigir gan gwmnïoedd mawr sy'n darparu gwasanaeth, fel cwmnïau ynni a thelegyfathrebu. Yn sicr, bydd hyn yn helpu cynyddu statws yr iaith Gymraeg fel un o ieithoedd swyddogol Cymru.

Yn hwyrach ym mis Chwefror, fe groesawais y Gweinidog Treftadaeth i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth er mwyn cwrdd â chynrychiolwyr o'r staff a thrafod y pryderon am sefyllfa bresennol y llyfrgell. Roeddwn yn falch iawn bod Alun Ffred Jones AC wedi derbyn fy ngwahoddiad ac wedi cydnabod pwysigrwydd y sefydliad a gwaith caled y staff i ddiogelu nifer o'n trysorau fel cenedl. Rwyf nawr yn gobeithio y bydd y Gweinidog ac undebau'r staff yn parhau i drafod y materion a godwyd yn ystod ein cyfarfod ac rwyf innau fel yr Aelod Cynulliad lleol yn llwyr gefnogol o'r llyfrgell a'i gwaith.

Cefais gyfle yn ystod mis Chwefror i ymweld â llety cysgodol Glyn Padarn yn Llanbadarn Fawr i gwrdd â'r preswylwyr. Yn ystod yr ymweliad, fe dynnwyd fy sylw at y problemau mae rhai ohonynt yn eu cael wrth ddefnyddio'r gwasanaeth bws lleol ac rwyf yn awr wedi codi'r mater gydag Arriva er mwyn iddynt allu gwella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.


# TREFEURIG

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan iawn i Angharad Fychan, Glanyrafon, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

ytincer@googlemail.com

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD



Manteg
Bow Street
Ffôn 828531


Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# CLARACH / LLANGORWEN

Bydd bore coffi yn Neuadd Rhydypennau ar fore Sadwrn y 4ydd o Ebrill tuag at elusennau eglwysig a Chymdeithas Ceredigion i'r Deillion. Bydd yna stondinau amrywiol ac arddangosfa o frodwaith.Trefnir gan Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen.

# LLAWLYFR LEOL

*Darganfod y Dyfi: Ynyslas a thu hwnt. A Dyfi discovery: Ynyslas and beyond.*
Cyngor Cefn Gwlad Cymru, 24t.




Dyma lyfryn (24tt) dwyieithog, lliwgar a darllenadwy sydd yn cyflwyno rhyfeddodau natur un o'r ardaloedd mwyaf diddorol yng Ngheredigion. Mae'n cynnwys ffotograffau lliw dethol o safon uchel i adlewyrchu yr hyn y gellir ei weld a'i werthfawrogi y tu mewn i ffiniau Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi (GNG).

Dan benawdau megis : - Darganfod y Dyfi — Tywod aflonydd — Twyni Amrywiol — Gwylio Bywyd Gwyllt — Dyfi Diarffordd —Colli ac adfer tir — Codi'r Gors — fe'ntywysir i sylweddolicymaint o amrywiol gynefinoedd sydd i'w cael y tu mewn i ffiniau'r Warchodfa arbennig hon. Ceir map lliwgar ynghanol y llyfryn yn rhannu'r ochr Gymraeg oddi wrth yr ochr Saesneg.

Mae'r cyflwyniad yn darllen yn rhwydd heb ddefnyddio termau technegol na disgrifiadau gwyddonol manwl ac y mae'n gwbl addas i fyfyrwyr ysgolion uwchradd ac i oedolion. Cyhoeddir y gwaith gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac y mae ar gael yng Nghanolfan Ymwelwyr y Warchodfa ger y Maes Parcio. Gofynnwch am eich copi yno a holwch ar yr un pryd am y daflen liwgar Ynyslas- llwybr i'r teulu sydd yn darlunio rhai o'r blodau, adar ac anifeiliaid bach sydd i'w gweld. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr ( a tholiedau) ar agor yn ddyddiol (09.30 — 17.00) o'r Pasg tan ddiwedd mis Medi (01970 872 900). Ewch a mwynhewch!

**W.B.L. Evans**

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Drwy Gyfrwng y Gymraeg**

Ydych chi eisiau her newydd – cyfle i wella eich Cymraeg, dysgu mwy am lenyddiaeth Gymraeg, Hanes Cymru neu Oes Aur byd y sinema? Dyma eich cyfle i astudio ar y Sadwrn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gloywi Iaith (OC10320)
Llenyddiaeth yr Ugeinfed Ganrif (OC10210)
Concwest, Uno a Hunaniaeth 1200-1800 (OH10120)
Astudio Ffilm* (OD10410) (* dysgu o bell)

**Dyddiad cau**: 30 Ebrill
Am ffurflen gais a mwy o fanylion
**Ebostiwch**: graddallanol@aber.ac.uk
neu ffoniwch: 01970 622239.

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU

Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.

**Croeso i blant o 2½ oed i fyny.**

Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.

Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065

**CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU**

Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.

Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i rlant.

**RHODRI JONES**
**Brici a chontractiwr adeiladu**
**07815 121 238**
**Gwaith cerrig**
**Adeiladu o'r newydd**
**Estyniadau Patios**
**Waliau gardd**
**Llandre Bow Street**

ytincer@googlemail.com

# COLOFN MRS JONES

Wn i ddim am beth i ysgrifennu y mis hwn. Ac ni wn paham y teimlaf fel hyn. Mae'n wir fy mod wedi bod mor brysur yn ddiweddar fel nad wyf wedi cael llawer o amser i synfyfyrio uwchben newyddion a digwyddiadau'r dydd ond nid dyna'r unig reswm ychwaith.

Ond y mae fy mhrysurdeb wedi gwneud i mi sylweddoli ein hangen fel pobl am amser i feddwl.Yr wyf wedi budr ddyfynnu llinell W.H.Davies i mi fy hun droeon yn ystod y mis diwethaf, 'What is this world if full of care, we have no time to stand or stare?' I'r rhai ohonoch nad ydynt yn ogleddwyr, efallai y dylwn esbonio'r ymadrodd budr ddyfynnu, ei ystyr yw hanner dyfynnu neu ddyfynnu mewn ansicrwydd o gywirdeb absoliwt y dyfyniad. Budr + ferf inni yw hanner gwneud rhywbeth, gall gogleddwr wneud rhywbeth mor od a budr olchi llestri, hynny yw, golchi llestri heb wneud hynny yn drylwyr. Mae'n wahanol ymadrodd i roi swn arni, hanner gwneud y job yn llwyr o'i chwr yw hynny. Arferai fy nhad ddweud ei fod wedi rhoi swn ar olchi llestri a'r hyn a olygai oedd ei fod wedi golchi pobeth ond y sosbyn ac fe wyddai fy mam a fi hyn o'i glywed. Ac fe gefais fy hun yn meddwl am ymadroddion fel hyn y dydd o'r blaen. Wrth dwrio trwy bethau yn y tÐ hwn, darganfum beth dal halen fy nain, dysgl fach wydr gryno a alwai hi yn 'saltar halen', partner i'r 'cremjwg llefrith' ar y bwrdd bach crwn a ddefnyddiai'r teulu ym Meysydd. Rwan, rowlio chwerthin a wnaem ni blant pan glywem ni nain yn siarad fel hyn ond, wrth i mi heneiddio, gwelaf ei fod yn dweud rhywbeth wrthyf am y ffordd y lledodd Saesneg, i fod yn ddealladwy, roedd angen y ddau ymadrodd, yn union yr un angen ac y tybiai fy nith oedd ei angen arni hi pan oedd hi'n llawer llai pan ddywedai bethau fel allan mas a gorffen bennu am ei bod yn cael ei magu gan deulu yr oedd un ochr iddo yn ogleddwyr a'r ochr arall yn ddeheuwyr.Ond er tegwch â ni, fe roedd Lois yn gwneud cam â'r gogleddwyr, ar wahan i'w thaid, fe rythai hwnnw yn gegrwth arni yn aml mewn diffyg dealltwriaeth llwyr! Rwy'n cofio un sgwrs rhwng y ddau lle soniai fy nhad am giat yr hewl a Lois yn edrych arno mewn anobaith, 'giat y ffalt', ceisiodd fy nhad dim ond i Lois edrych arno yn dosturiol fel na all ond plentyn bach ei wneud. 'Beth am lidiart y buarth 'ta? holodd fy nhad i gyfeiliant diffyg deall parhaol Lois. 'Tria iet y clos' meddai fy mam a dyma wyneb y fechan yn gloywi gyda dealltwriaeth.' Mae eisiau cyfiethydd yn y tÐ ma' ebychodd fy nhad - a 'wes,wes' meddai Lois fel petai wedi deall yn iawn!

Ond i ddychwelyd at W.H.Davies, roedd gan y dyn bwynt. Mae amser yn ystyried y byd mewn tawelwch yn bwysig. Geilw rhai ef yn weddi, geilw eraill ef yn fyfyrio ond beth bynnag yr enw mae meddygon yn cyfaddef ei fod yn well at ostwng pwysau gwaed na degau o dabledi er nad ydynt yn gallu deall sut yn union y mae'n effeithio arnom. Ond yn gynyddol, yr ydym yn rhoi'r arfer o'r neilltu. Roedd gwefan y BBC yn trafod y dydd o'r blaen peth mor brin oedd gweld rhywun yn teithio heb ddarllen neu wrando cerddoriaeth neu ddefnyddio gliniadur a ffôn symudol, prin, meddent, yw'r bobl sydd yn fodlon eistedd yn gwylio'r olygfa yn ddiogel yn eu byd bach meddyliol eu hunain. A gwir y gair, rydym wedi mynd i gredu fod yn rhaid inni fod yn gwneud rhywbeth trwy'r amser ond a yw hyn mewn difrif yn wir? A oes gennym angen clywed llais rhywum arall, boed gyfaill neu newyddiadurwr, bob amser? Fe ddadleuwn i nad oes ac, ymhellach, fe ddadleuwn i mai'r bobl mwyaf niwrotig yw'r rhai sydd ei angen oherwydd os na fedrwch dreulio amser gyda chi eich hunan a'i fwynhau, sut fedrwch chi fwynhau cwmni neb arall ychwaith. Onid oes raid i chi hoffi eich hun cyn hoffi eraill a chyn i eraill eich hoffi chi?

Yr wyf yn gorffen, y mae gennyf bum munud sbar a phethau i feddwl amdanynt!

# YSGOL RHYDYPENNAU

### Beicio
Mae plant blwyddyn 6 yn brysur yn gwella a datblygu eu sgiliau ffordd fawr ar eu beiciau. Maent yn paratoi am y prawf terfynol er mwyn ennill tystysgrif diogelwch y ffordd fawr. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Malcolm Charlton am yr hyfforddiant parhaus.

### Twmpath
Ar y 26ain o Chwefror, trefnwyd Twmpath Dawns yn Neuadd y Pentref i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Cafwyd gwledd o ddawnsio gwerin, digon o fwyd, diod a llwyth o sbri. Diolch i Erwyd Howells, Brian Jones a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu noson wych.

### Taith Gerdded
Er mwyn codi arian ar gyfer Eisteddfod Yr Urdd 2010, trefnwyd taith gerdded gan yr ysgol. Ar fore oer, ond sych, bu'r ysgol gyfan yn cerdded y llwybrau cyhoeddus lleol. Ar ôl casglu, derbyn a chyfri'r holl arian; cafwyd y swm anrhydeddus o £1,000. Diolch i bawb am yr ymdrech.

### Caniadaeth y Cysegr
Yn ddiweddar cafodd yr ysgol y fraint o gynnal rhaglen'Caniadaeth y Cysegr' ar Radio Cymru. Perfformiodd 20 o blant o flynyddoedd 5 a 6 amrywiaeth o eitemau canu a llefaru er mwyn creu rhaglen hanner awr o hyd. Darlledwyd y perfformiad ar ddydd Sul y cyntaf o Fawrth am hanner awr wedi 4. Derbyniodd yr ysgol ganmoliaeth uchel gan nifer o bobl lleol y gymdeithas yn sgîl y gwrandawiad.

### Gweithdy
Ar y 4ydd o Fawrth fe aeth blwyddyn 1 a 2 i Ganolfan Ffydd A Diwylliant Y Morlan i weld arddangosfa gan blant o bedwar ban byd. Cawsant gyfle i ychwanegu at yr arddangosfa a gellir gweld ffrwyth eu llafur yn 'Y Morlan' tan ddiwedd y mis.

### Yr Eisteddfod Gylch
Da iawn i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch Yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i'r eitemau buddugol a phob hwyl iddynt yn yr Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid.



Plant y Meithrin a'r Derbyn yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi.


Llun o'r daith gerdded diweddar ar gyfer Eisteddfod 2010

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk


Twmpath yn neuadd y pentref i ddathlu Gŵyl Ddewi.


Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
E W R
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

Blodau i bob achlysur
**Blodau'r Bedol**
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

**MORRIS & READ**
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

**GWASANAETH TEIPIO**
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

**TAFARN TYNLLIDIART**
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

**MARK HUGHES**
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938


**CYSYLLTWCH Â NI**
ytincer@googlemail.com

# YSGOL PEN-LLWYN

## Diwrnod y Llyfr

Eleni roedd rhaid i bob plentyn ddewis ei hoff lyfr ac yna mynd ati i greu clawr deniadol ar ei gyfer. Yn ogystal â hynny roedd yn rhaid rhoi cyflwyniad a gwerthfawrogiad o'r llyfr a gwisgo fel un o'r cymeriadau yn y stori.

Y beirniaid oedd Mrs Janet Roberts a Mrs Joyce Bowen, Bow Street. Dyma'r rhai a ddaeth i'r brig:

Clawr llyfr Dosbarth 1
1af Alaw Evans, 2il Laura Williams, 3ydd Llŷr Evans

Gwisg Dosbarth 1
1af Llŷr Evans, 2il Nuala Ellis Jones, 3ydd Laura Williams

Gwisg Blynyddoedd 3 a 4
1af Alison Keegan, 2il Manon Davies, 3ydd Keiran Evans a Rebecca Williams

Gwisg Blynyddoedd 5 a 6
1af Oliver Herschell, 2il Ieuan Evans, 3ydd Rhian James

Clawr llyfr Blynyddoedd 3 a 4
1af Lauren White, 2il Manon Davies, 3ydd Jo Jones

Clawr llyfr Blynyddoedd 5 a 6
1af Rhian James, 2il Dylan Williams, 3ydd Gerallt Williams

## Llongyfarchiadau

Da iawn ti Amy Dryburgh. Enillodd y wobr gyntaf am dynnu pedwar llun o fyd natur mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu gan y Ford Gron yn Aberystwyth.

Daeth llwyddiant hefyd i Gethin ap Dafydd am ysgrifennu barddoniaeth ar goed mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu gan Amgueddfa Ceredigion ar y cyd ag Arad Goch a'r llyfrgell yn y dref. Cafodd Alison Keegan wobr a chanmoliaeth am ei stori hi hefyd. Llongyfarchiadau i'r ddau.

## Eisteddfod yr Urdd

Bu Jo, Manon, Alison a Haf yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

## Masnach Deg

Bu'n bythefnos Masnach Deg yn ddiweddar. Gan ein bod yn cymryd rhan yn y gweithgareddau er mwyn anelu at fod yn ysgol Fasnach Deg, bu'r plant yn paratoi gwasanaeth, a choginio gyda chynhwysion Masnach Deg. Rhaid oedd bwyta banana ar ddydd Gwener y 6ed o Fawrth er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r anhegwch sydd mewn llawer o wledydd. Roedd pawb wedi gwisgo mewn dillad melyn a du ar y diwrnod arbennig hwn.

## Arad Goch - Drama

Cafwyd sesiynau bywiog yng nghwmni Mari o Gwmni Arad Goch eleni eto. Mae'r plant yn mwynhau gweithdai drama Mari yn fawr iawn.

## Dydd Gŵyl Ddewi

Ar ddydd Gwener, Chwefror yr 28ain cynhaliwyd ein dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi yn yr ysgol. Cawsom brynhawn hwyliog dros ben o ddawnsio gwerin dan arweiniad Erwyd Howells, Capel Madog. Wedi'r dawnsio cawsom de traddodiadol Cymreig o fara brith a pice man. Ymunodd Mrs Mairwen Williams a Mrs Joyce Bowen yn yr hwyl gyda'r plant a'r athrawon. Wedi'r te cawsom seremoni wobrwyo ar gyfer y cystadlaethau gwaith cartref ar gyfer y diwrnod. Carem ddiolch i Mrs Mairwen Williams am feirniadu'r cystadlaethau hyn. Coronwyd Oliver Herschel yn brif-lenor am ysgrifennu stori. Dyma ganlyniadau'r cystadlaethau:

Mosaic Draig (Dosbarth 1)
1af Nuala Ellis Jones, 2il Jack Barron, 3ydd Alaw Lois Evans

Llawysgrifen plant derbyn
1af Morgan Kensler Joyce, 2il Llŷr Evans
3ydd Huw Griffiths

Llawysgrifen Blynyddoedd 1 a 2
1af Nuala Ellis Jones, 2il Alaw Evans, 3ydd Haf Evans

Barddoniaeth Dosbarth 1
1af Alaw Evans, 2il Haf Evans, 3ydd Laura Williams a Llŷr Evans

Stori Blynyddoedd 3 a 4
1af Tomos Evans, 2il Steffan Lewis, 3ydd Lauren White

Stori Blynyddoedd 5 a 6
1af Oliver Herschel, 2il Ieuan Evans, 3ydd Rhian James a Mathias Roberts

Cynllunio Crys Rygbi
1af Tomos Evans, 2il Oliver Herschel, 3ydd Tomos Nicholls ac Ieuan Evans

Llawysgrifen Blynyddoedd 3 a 4
1af Gethin ap Dafydd, 2il Manon Davies, 3ydd Alison Keegan

Llawysgrifen Blynyddoedd 5 a 6
1af Oliver Herschel 2il Mathias Roberts, 3ydd Gerallt Williams

Cynllunio Gwisg Gymreig
1af Amy Dryburgh, 2il Alison Keegan
3ydd Rebecca Williams a Bethany Langford

## Taith dosbarth 1 i bentref bach

Ar ddydd Mercher 4ydd o Fawrth aeth disgyblion CA1 ar daith i Bentref Bach ym Mlaenpennal er mwyn dathlu diwrnod y Llyfr. Gwisgodd y plant fel cymeriadau o nofelau T. Llew Jones, y sipsiwn, môr-ladron a lladron pen ffordd. Cawsant gwrdd â Twm Siôn Cati a chlywed tipyn o'i hanes ef i ddechrau cyn mynd ymlaen i glywed storiwr arall yn adrodd storiau Sil a Sil yn ogystal â Siôn Cwilt. Aethant ymlaen i gwrdd â Barti Ddu cyn clywed Owenna Davies yn adrodd ei hoff farddoniaeth gan yr awdur.



Amy Dryburgh, 1af, (ar y chwith) – buddugol yng nghystadleuaeth y Ford Gron.



Gethin ap Dafydd ac Alison Keegan yn derbyn eu gwobrau yn yr Amgueddfa yn Aberystwyth.

## Pêl-droed

Bu tîm pêl-droed Pen-llwyn yn chwarae twrnament Mini Minor ar gaeau pêl-droed Penweddig ar ddydd Sadwrn 28ain o Chwefror.

Yn chwarae dros y tîm roedd Keiran Evans, Amy Dryburgh a Gethin ap Dafydd yn y blaen. Yn y canol roedd Oliver Herschell, Gerallt Williams, Jo Jones a Tomos Evans. Yn amddiffyn roedd Dylan Williams, Rhian James, Rhydian ac Oliver. Iestyn oedd yn y gôl. Y gêm gyntaf oedd yn erbyn Bois y Graig. Y sgôr oedd 3-0 i ni. Roedd Keiran wedi sgorio dwy gôl ac Amy wedi sgorio un gôl.

Yr ail dîm inni chwarae oedd Piod Bow Street. Y sgôr oedd 2-0 i ni. Roedd Keiran wedi sgorio un a Gethin wedi sgorio un. Y drydedd gêm i ni ei chwarae oedd yn erbyn Llewod Padarn. Y sgôr oedd 1-0 i ni. Keiran oedd wedi sgorio'r gôl.

Machynlleth C oedd y bedwaredd gêm. Y sgôr oedd 0-0 ond aethom ni mewn i'r rownd gyn-derfynol. Yn erbyn Teigrod Tregaron roedd y sgôr yn 1-1 ac roedd yn rhaid mynd ymlaen i amser ychwanegol a chymerodd Keiran gornel ac roedd Jo wedi penio'r bêl ac roedd Amy wedi sgorio'r gôl derfynol. Roeddem i gyd yn hapus ac roedd pob un yn neidio ar ben ei gilydd! Hwre!
Adroddiad gan Amy Dryburgh a Rhian James

## Clwb yr Urdd

Cafodd y plant hwyl yng nghwmni Ceri o Dal-y-bont a ddaeth yma i gynnal gêmau pêl a rhyngweithiol gyda'r plant. Cawsant hwyl hefyd yng nghwmni Mrs Liz Collison wrth blannu Lili Wen Fach a dysgu cân am y Lili Wen Fach. Carem ddiolch i'r ddwy am ddod yma i ddiddanu'r plant.

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Bag2School

Ar ddydd Mercher olaf mis Chwefror, roedd neuadd yr ysgol yn edrych yn debycach i "Jumble Sale" wrth i rieni a ffrindiau'r ysgol lenwi bagiau gyda hen ddillad. Casglwyd y bagiau o dan ymgyrch Bag2School lle talwyd yr ysgol amdanynt. Llwyddwyd i lenwi fan gyda'r holl fagiau ac edrychwn ymlaen yn awr yn eiddgar i wybod faint o arian a godwyd. Bydd casgliad arall ym Mis Hydref. Diolch i bawb a gyfranodd a chadwch lygad allan am wybodaeth ar gyfer y casgliad nesaf.

## Eisteddfod yr Urdd

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yng Nghystadlaethau Eisteddfod Gylch yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Mared Pugh-Evans a lwyddodd i ennill ar yr Unawd Telyn. Bydd yn awr yn symud ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth ym Mhontrydfendigaid. Daeth hefyd yn ail ar yr Unawd Chwythbrennau wrth chwarae ar y Ffliwt.
Llwyddodd dwy o unawdwyr yr ysgol i ennill drwodd o'r rhagbrofion ac ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod Gylch. Ar yr Unawd dan 8 oed, daeth Zoe Evans yn ail. Ar yr Unawd 10-12, llwyddodd Mared Pugh-Evans hefyd i ennill yr ail wobr. Da iawn i'r ddwy ohonynt.
Ers wythnosau erbyn hyn, bu Grŵp llefaru yr ysgol yn paratoi ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Mae'n amlwg i'r holl waith caled yn ystod amser egwyl dalu ffordd, gan iddynt gipio'r wobr gyntaf. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac i Miss Rhian Davies am eu hyfforddi. Pob dymuniad da iddynt hwy a Mared yn yr Eisteddfod Rhanbarth.

## Celf a Chrefft

Yn yr Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarthol, llwyddwyd i ennill nifer o wobrau eleni eto. Diolch i Miss Davies am eu holl waith gyda'r disgyblion ac am gefnogaeth ffrindiau yr ysgol a ddaeth i'w cynorthwyo ar ôl ysgol ac yn ystod hanner tymor. Bydd y buddugwyr yn cael eu harddangos yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog am y mis nesaf cyn cael eu beirniadu yn Genedlaethol.

Pyped Bl. 3 a 4
1af. Sion Jones
Pyped Bl. 5 a 6
2il. Robert Wallace
Pypedau Cywaith Bl. 2 ac iau
1af Owen, Tyler, Owen, Taylor
2il. Phoebe, Alana,
Pypedau Cywaith Bl. 3 a 4
2il. Owain, Sioned,
Pypedau Cywaith Bl. 5 a 6
1af. Cartrin, Hope,
2D Tecstilau Bl. 2 ac iau
1af. Steffan Huxtable
3D Tecstilau Bl. 2 ac iau
2il. Elain Donnelly
3ydd. Beca Jenkins
3D Tecstilau Bl. 3 a 4
1af. Lowri Walther
2il. Sion Hurford
3ydd. Seren Jenkins
3D Tecstilau Bl. 5 a 6
1af. Lisa Evans
2il. Mared Pugh-Evans
3ydd. Sarah Cooke
Gwau/Crosio Bl. 2 ac iau
1af Zoe Evans
Gwau/Crosio Bl. 3 a 4
1af. Becky Hicks
Gwau/Crosio Bl. 5 a 6
1af. Angharad Davies
Print Du a Gwyn Bl. 2 ac iau
3ydd. Sian Jenkins
Print Lliw Bl. 2 ac iau
1af. Sian Jenkins
Printiau Du a Gwyn Bl. 3 a 4
1af. Seren Jenkins

## Dydd Gŵyl Ddewi

Fel rhan o ddathliadau Dydd Gwyl Dewi yr ysgol, qwahoddwyd y disgyblion i wisgo dillad traddodiadol neu crysau coch. Cafwyd llawer o wisgoedd arbennig, gan gynnwys un bachgen wedi gwisgo fel merch draddodiadol. Yn ystod yr wythnos nesaf, byddwn yn cynnal Eisteddfod Ysgol Gŵyl Ddewi.

## Tesco

Mae'r ysgol wrthi yn casglu tocynnau Tesco ar hyn o bryd. Os ydych yn digwydd taro i mewn i Tesco ac yn derbyn tocynnau, byddem yn ddiolchgar iawn o unrhyw gyfraniadau. Mae bocsys casglu ar gael yn y siop ac yn y garej. Diolch.

## Crempogau

Dathlwyd dydd Mawrth Ynyd yn yr ysgol yn yr unig modd posib! Bu'r dosbarthiadau i gyd wrthi yn paratoi y gymysgedd cyn mynd ati i greu crempogau unigol. Cafwyd yna gyfle i lenwi pob crempog gyda amrywiaeth o ddanteithion. Bu un dosbarth hyd yn oed yn cymryd rhan mewn ras crempogau. Cafwyd llawer o hwyl gyda phawb yn mynd adre wedi cael llond eu boliau.



Zoe Evans a ddaeth yn ail ar yr Unawd o Dan 8 yn Eisteddfod Gylch yr Urdd.



Mared Pugh-Evans a ddaeth yn gyntaf ar yr Unawd Telyn ac yn ail ar yr Unawd Chwythbrennau a'r Unawd 10-12 oed yn Eisteddfod Gylch yr Urdd.




Parti llefaru yr ysgol a ddaeth yn gyntaf ar y Parti Llefaru yn Eisteddfod Gylch yr Urdd




Disgyblion blwyddyn 2 ym Mhentre Bach wrthi'n dathlu bywyd T. Llew Jones.

## Cyfnod Sylfaen

Mae ardal y cyfnod sylfaen wrthi yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Gwelir nifer o eitemau yno erbyn hyn e.e. twnel, ffôn pibau ynghyd â llwybr allan o helyg. Ni fyddai posib cwblhau y gwaith arbennig hyn heb gefnogaeth nifer o fobl. Diolch i'r canlynol am eu holl waith caled:- Meirion Edwards, Geraint Jones, Dai Evans a Rhys Evans, Steven Merry a Keith Thomas ynghyd â ffrindiau eraill a ddymuna aros yn ddi-enw.

## Diwrnod y Llyfr

I ddathlu diwrnod y llyfr, croesawyd Mrs Gill Saunders Jones i'r ysgol i lansio llyfrau newydd gan Gwmni @ebol. Yn ystod y bore, bu'n arddangos y llyfrau newydd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a Blwyddyn 1. Braf oedd gweld Mrs Jones yn ôl yn yr ysgol a diolch iddi am ei pharodrwydd i ymweld â ni ac am ei rhodd.

# TASG Y TINCER

Ddaru chi fwynhau dathlu dydd Gŵyl Ddewi? A beth am Ddiwrnod y Llyfr ar 5 Mawrth? Gwelais nifer ohonoch yn mynd i'r ysgol wedi eich gwisgo fel cymeriad o lyfr — ces i gip ar Superman a Smot a sawl cowboi a Sali Mali!

Diolch i bawb fu'n lliwio llun Dewi Sant y tro diwethaf: Garan Thomas a Gruffudd Ellis o Gaerdydd; Lewis Morgans, Heulwen, Garth, Penrhyn-coch; Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Katie Boake, Llawen-fan, Salem; Elan Griffiths, 9 Rhydygarreg, Y Borth; Luned Mair Jones a Nannon Angharad Jones, Tangeulan, Capel Bangor; Ffion Erin Williams, Bryn Rheidol, Capel Bangor; Alaw Lois Evans, Pwllcenawon, Capel Bangor.

Hefyd, daeth nifer o luniau da iawn o'r rhedwr yn rhy hwyr i mi son amdanynt mis diwethaf, ond diolch yn fawr iawn Manon Grug Davies, Gilfach Glyd, Goginan a Teleri a Glesni Morgan, Ger-y-nant, Dolau am anfon eich lluniau.

Ti Ffion Williams, Capel Bangor sy'n ennill y tro hwn. Da iawn wir!

Beth ydech chi'n ei fwynhau orau am y Pasg? Tybed a ydych chi, fel fi, yn cael blas mawr ar yr wyau siocled? Dechreuwyd gwneud wyau Pasg siocled rhyw 150 o flynyddoedd yn ôl, gyda'r rhai cyntaf yn rhai mawr iawn wedi eu haddurno â rhubanau, ac roedden nhw'n ddrud dros ben. Mae cysylltiad yr ŵy â gŵyl y Pasg yn mynd yn ôl dros nifer o ganrifoedd, gan fod yr ŵy yn arwydd o fywyd newydd. Daeth yn arfer i roi wyau wedi eu haddurno fel anrhegion, ac roedd rhain wedi eu peintio'n ddel, a'u lliwiau'n dangos bod y gwanwyn ar ei ffordd.

Bydd rhai yn cael cystadleuaeth rolio wyau, a chredwch neu beidio, cynhaliwyd y gystadleuaeth hon ar un o lawntiau'r Tŷ Gwyn yn Washington yn flynyddol ar ddydd Llun y Pasg, ers 1878!

Mae gan wahanol wledydd eu ffordd eu hunain o ddathlu'r Past. Yng ngwlad Groeg, mae wyau'n cael eu peintio'n goch, i gofio am waed Iesu Grist, tra'n Awstria, gwyrdd yw lliw yr wyau, weithiau wedi eu haddurno a phlanhigion bach. Bydd pobl Armenia yn addurno'r wyau â lluniau o Iesu Grist a Mair.

Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r bachgen yn mwynhau'r gamp o ddarganfod y wyau Pasg a guddiwyd gan Wningen y Pasg?! Os edrychwch yn ofalus, mae'r Wningen yn gwylio'i ffrind o du ôl y llwyn! Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Ebrill 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

**M & D PLUMBERS**

Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch

Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol

Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr (duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 317 | MAWRTH 2009